

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 10ed o Ebrill 2018

- 1. Presennol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina M W Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Harry Wyn Owe – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle; Erfyl Williams, Barry Bracegirdle, Nerys Williams – Penygroes; Judith Humphreys – Cynghorydd Sir / **Ymddiheuriadau:** Sharon Wynne Jones – Talysarn, Dafydd Thomas – Nebo, Justin Davies a Dylan Herbert – Penygroes, Craig ab Iago – Cynghorydd Sir.
 - 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Ni gymrodd y Cynghorydd Sir unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar geisiadau cynllunio yn y cyfarfod.
 - 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mawrth.** Hefina yn datgan cywirdeb y cofnodion a Barry yn eilio.
 - 4. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Judith wedi mynychu cyfarfod 'Dewch i Drafod Busnes' ac y adrodd yn ol. Diolchodd Barry i Judith am fynd o amgylch y pentref gydag ef i weld y diffygion; Glynllifon – nifer o gyfarfodydd wedi bod, a chyfarfod arall mewn pythefnos.
 - 5. Cynghorwyr Sir.** Cafwyd adroddiad ar ebost gan Craig ac fe'i darllenwyd, a chafwyd adroddiad ysgrifenedig ac ar lafar gan Judith.
 - 6. Taflen Ariannol a Chyllid.** Cafwyd yn gywir. Gofynwyd i'r Clerc os y byddai'n bosib ebostio'r daflen cyn noson cyfarfod.
 - 7. Cyfarfodydd is-bwyllgor.** Prosiect MacPelah – cyfarfod wedi ei gynnal (gyda diolch i Mark Balaam am wneud y trefniadau a pharatoi'r rhaglen) gyda Ymynghoriaeth Gwynedd i drafod arolygu gwaith ehangu mynwent MacPelah – er fod arian y cael ei gadw yn flynyddol ar gyfer y gwariant prosiect, efallai bydd rhaid edrych am fenthyciad tymor hir. Penderfynwyd y dylid cydnabod y gwaith paratoi cynhwysfawr yma.
 - 8. Cynllunio.** NP3/22/3B Talmignedd Nantlle - caniatáu; C18/0255/22/LL Pen Terfyn, Tyn y Weirglodd, Penygroes – dymchwel porth blaen a chodi estyniad yn ei le - cymeradwyo; C17/1080/22/RC – Apel Seibiant, Ffordd Rhiwlas, Talysarn – dim newid o benderfyniad gwreiddiol y Cyngor sef gwrthod.
 - 9. Gohebiaeth.**
- *Cyngor Gwynedd:**
- *Ymatebion – llwybr 15 wedi ei chlirio, Sianel Bryn Llwyn – heb ei lanhau er fod yr ebost yn datgan fod y gwaith wedi ei wneud, Tyfiant Coed, Lon Ddwr, Lon at Ysgol Llanllyfni – y tyiant drain ar Ffordd Rhedyw, nid ar y lon at yr ysgol – angen diweddarau Cyngor Gwynedd, Lamp Llanllyfni – wedi ei thrwsio, Tyllau Lon Ddwr – ar y rhaglen waith.
 - *Ad-daliad llwybrau. Derbyniwyd rhan-daliad gan Cyngor Gwynedd am y gwaith tocio.
 - *Cyfraniadau pensiwn 2018-19. Cyfraniadau cyflogwr yn cynyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf – derbyn.
 - *Gwaharddiad Trafndiaeth Ffordd y Parc, Llanllyfni a Ffordd Cae Duon, Nasareth. Er gwybodaeth.
 - *Cynllun Llechi – Prosiect Safle Treftadaeth y Byd Llechi. Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus mewn derbyn arian grant ar gyfer prosiect gyffrous. Y Cyngorwyr yn eu llongyfarch ac yn edrych ymlae am gyfarfod yn fuan.
 - *Toiledau Cyhoeddus – Penygroes. Gofynwyd i dynnu Plas Silyn oddi ar y cynllun amgen toiledau cyhoeddus, gan fod sefyllfa staffio wedi newid. Judith am holi Poveys os bu i'r trefniadau symud ymlaen yn llwyddiannus, a'r Clerc i edrych drwy gofnodion y Cyngor Cymuned am gofod i'r Cyngor Cymuned gyfrannu £500 tuag at yr adnodd yn Poveys gan nad oes cyfraniad wedi ei wneud hyd yn hyn.
 - *Taldwrst – gwybodaeth ychwanegol. Darllenwyd yr ebost. Cynghorwyr Sir am fynd i gysylltiad efo Cyngor Gwynedd gan fod gwrthwynebiadau ym mhentref Llanllyfni ac ar Lon Ddwr. Awgrymu fod loriau gweigion yn teithio yn ol i'r safle drwy Tanrallt, ac wedyn byddai hyn yn hanneru'r niferoedd o deithiau drwy Llanllyfni.
 - *Cydweithio i Wella ein Cymunedau – Cyfarfod Delwedd Dyffryn Nantlle 9/5/18. Bydd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned yn mynychu'r cyfarfod – atgoffa'r Cynghorwyr yng nghyfarfod Mai.
- *Arall**
- *Craig ab Iago – Cynllun Gweithgareddau Dros yr Haf – Ffion yn mynychu ac yn fodlon cynrychioli'r Cyngor Cymuned.
 - *Un Llais – Plastigion; Papur Gwyrdd Cryfhau Llywodraeth Leol ; Cynigion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ; Swyddog Diogelu Data ; Ymateb Un Llais i'r Adolygiad Cyngor Cymuned a Thref. Fe yrrwyd yr ohebiaeth i'r Aelodau drwy ebost yn ystod y mis.
 - *Gweithdy Hyfforddiant ar Gynllunio. Neb yn mynychu.

*Gohebiaeth parthed cais plannu coed ar Gors y Llyn. Y pentref ddim yn bwrw ymlaen efo'r cynllun. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo'r Bwrdd Dwr i ofyn wrthynt glirio'r Japanese Knotweed sy'n ymledu o'u safle.

*Cynllun Datblygu Lleol – Parc Cenedlaethol Eryri. Rhoddwyd y copi i Ffion er gwybodaeth.

10. **Cydnabyddiaeth Ariannol Cyngorwyr** – gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Un Llais i ofyn os yw hi'n gyfreithlon i aelodau roi'r arian yn ol i'r Cyngor fel rhodd.

11. **Cais Loteri RWP** Hannah Joyce o Gyngor Gwynedd wedi gwneud drafft 1af cais am grant i gofeb R Williams Parry. Os yn llwyddiannus, bydd angen wedyn i drefnu cyfarfod cyhoeddus.

12. **Eglwys Talysarn.** Datblygwyr wedi dangos diddordeb yn y safle. Grwp Cynefin heb gysylltu yn ol eto, ac mae amser y prinhau. Diolch i OP am ohebu ac am y diweddariad.

13. Materion Pentrefi . Nantlle Ras Ryngwladol Talymignedd mis Mehefin. Llanllyfni Ysbwriel ar y bont rhwng Penygroes a Llanllyfni ; Tyllau ar bont Crychddwr. Tyllau ar Lon Ty Cerrig, Lon Tyn Parc, a ger Afallon, Nasareth ; Biniâu halen – edrych am ffyrdd eraill o weithredu ; Diwrnod hel ysbwriel wedi ei drefnu ; Twll wrth 'hump' Cefn Faes Llyn ochr Llanllyfni.

14. Llwybrau a Mynwentydd. Cyfarfod – prosiect MacPelah wedi bod – gweler cofnod 7; Cais am plot claddu Gorphwysfa – y Clerc i gysylltu yn ol er mwyn cadarnhau cyrhaeddiad meini prawf ffi claddu lleol trigolion plwyf Cyngor Cymuned Llanllyfni; Arwydd mynwentydd – penderfynwyd y dylid cael CYMRWCH OFAL ar y top – gofyn am ddau bris – angen dau arwydd ar gyfer MacPelah (i'w gosod ar y giatiau), dauar gyfer Gorphwysfa (giatiau) ac un ar gyfer yr Eglwys (gosod ar bolyn); Cwynion fod ceffylau yn malu arwyneb llwybr rhwng Tyrpeg nantlle am Talymignedd – does dim ffordd o gerdded arni mwyach gan ei bod wedi dirywio gymaint.

15. Materion yn ymweud a'r heddlu. Dim yn codi.

16. Materion ariannol

*Dwr Cymru – iawndal colli cyflenwad dwr mynwentydd. Talwyd i'r banc.

*Anfonebau: A Johnson – derbynebau £10.99; A Johnson – Ffon/Rhyngwyd £25 - cymeradwyo.

*Ceisiadau am arian – diolchiadau. Darllenwyd y llythyrau diolch. Nid oedd unrhyw gais mis yma.